



Sesiwn y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar Lywodraethu Amgylcheddol 30 Medi 2021

Crynodeb

1. Mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith yn cynnal sesiwn casglu tystiolaeth yn ymwneud ag amrywiaeth o faterion, yn cynnwys llywodraethu amgylcheddol. Wedi i ni ymadael â'r UE, mae yna 'fwlch llywodraethu' mewn perthynas ag egwyddorion amgylcheddol a llywodraethu amgylcheddol. Nid yw'r broses interim (IEPAW, gweler isod) y mae Dr Nerys Llewelyn-Jones yn gyfrifol amdani yn cynnwys cwynion (gan mai proses anstatudol ydyw) ac argymhellir y dylid cyfeirio'r rhain at gyfrff cyfredol a thrwy lwybrau cyfreithiol sy'n bodoli eisoes.
2. Mae hyn yn debygol o arwain at gynnydd yn nifer y cwynion amgylcheddol cymhleth a strategol a ddaw i ran CNC dros amser (amcangyfrifir bod CNC yn gyfrifol am hyd at 75% o'r meysydd a allai ddenu cwynion). Ymhellach, mae yna ddi-ddordeb cynyddol ledled y DU a Chymru mewn Adolygiadau Barnwrol fel ffordd o herio'r pryderon hyn. Mae sefydliadau anllywodraethol amgylcheddol a rhanddeiliaid eraill yn debygol o barhau i dynnu sylw at y mater hwn hyd nes y bydd deddfwriaeth sylfaenol yn sefydlu corff goruchwyllo amgylcheddol parhaol ar gyfer Cymru (go brin y bydd hyn yn digwydd cyn 2023 yn y fan gyntaf).
3. Mae CNC wedi ymrwmo i gynorthwyo Llywodraeth Cymru i ddatblygu deddfwriaeth newydd ar lywodraethu amgylcheddol yng Nghymru wedi i ni ymadael â'r UE. Rydym yn gweithio gydag asiantaethau eraill, gyda staff trwy CNC i gyd, a gydag Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru, ar drefniadau llywodraethu amgylcheddol, gan gydgyssylltu ymateb cynhwysfawr gan CNC i ymgynghoriadau a cheisiadau unigol am gyngor ac arweiniad.
4. Rydym yn gweithio'n rhagweithiol gyda'r Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd ar faterion parhaus a godir ynglŷn â gweithrediad cyfraith amgylcheddol yng Nghymru.

Cefndir

5. Mae egwyddorion amgylcheddol a ymgorfforwyd yn Erthygl 191 o Gytuniad yr UE ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd (TFEU) wedi bod yn sail i ddatblygu polisiau a chyfreithiau amgylcheddol yr UE yn ystod y deugain mlynedd diwethaf. Caiff y gwaith o oruchwyllo'r modd y rhoddir cyfreithiau amgylcheddol ar waith, ynghyd ag atebolrwydd Aelod Wladwriaethau dros yr hyn a gyflawnir ganddynt o dan y cyfreithiau hyn, ei oruchwyllo gan y Comisiwn Ewropeaidd a Llys Cyfiawnder Ewrop.
6. Ceir pedair egwyddor amgylcheddol yr UE yn y Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd (TFEU), sef:
 - *yr egwyddor ragofalus;*

- yr egwyddor y dylid cymryd camau ataliol;
- y dylid rhoi blaenoriaeth i unioni unrhyw niwed amgylcheddol yn y ffynhonnell,
- y dylai'r llygrwr dalu

7. Ar hyn o bryd, dim ond yr “egwyddor ragofalus” a’r egwyddor y dylid cymryd “camau ataliol” a gynhwysir yn neddfwriaeth sylfaenol Cymru. Mae Llywodraeth Cymru’n cynnig cynnwys pob un o’r 4 egwyddor mewn deddfwriaeth sylfaenol, fel yr argymhellir gan CNC a rhanddeiliaid eraill, er mwyn sicrhau bod pob un ohonynt yn parhau i gael ei chydabod yn llawn yn neddfwriaeth Cymru.
8. Dylai'r egwyddorion hyn ategu amcan cyffredinol sy'n pennu uchelgeisiau amgylcheddol yng Nghymru, yn cynnwys y cysylltiadau rhwng polisi amgylcheddol a meysydd polisi eraill er mwyn sicrhau bod egwyddorion amgylcheddol yn cael eu hintegreiddio yn y broses benderfynu.
9. Ers gadael yr UE, nid yw'r strwythurau blaenorol ar gyfer llywodraethu amgylcheddol yn gymwys mwyach yn y DU. Mae hyn wedi arwain at fwlch llywodraethu yng Nghymru a'r DU, a dyna pam mae Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig wrthi'n datblygu fframweithiau llywodraethu amgylcheddol pwrpasol ar gyfer Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, daw hyn ar ffurf y Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd a roddir ar waith fel rhan o Fil Amgylchedd y DU, y disgwylir iddo ddod i rym ym mis Tachwedd 2021. Yn yr Alban, daw hyn ar ffurf Safonau Amgylcheddol yr Alban a sefydlwyd fel rhan o Fil yr Undeb Ewropeaidd (Parhad) (Yr Alban). Yng Nghymru, mae Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd wedi'i benodi am ddwy flynedd (tan fis Mawrth 2023 ar hyn o bryd) tra datblygir deddfwriaeth ar gyfer gweithredu'r corff parhaol.
10. Mae'r Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd wedi'i gyfyngu i ymchwilio i weithrediad cyfraith amgylcheddol ac nid yw'n cynnwys system ar gyfer derbyn cwynion nac ymdrin â chwynion. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ddeddfwriaeth ar y gweill i sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol statudol yng Nghymru. O ganlyniad i hyn, rhagwelwn y bydd yna gynnydd mewn Adolygiadau Barnwrol, cwynion strategol a gwaith cyswllt/cynghori ar gyfer CNC, a chynnydd cysylltiedig mewn craffu cyhoeddus. Yn yr hirdymor, bwriedir sefydlu corff statudol, ac yn ôl pob tebyg bydd modd iddo ddefnyddio cosbau ariannol a phrosesau cyfreithiol i orfodi penderfyniadau a chynnig goruchwyliaeth effeithiol.
11. Mewn [erthygl ddiweddar yn ENDS](#) tynnir sylw at y bwlch llywodraethu yng Nghymru o gymharu â gweddill y DU, ynghyd â'r risgiau parhaus i amgylchedd Cymru, gan gyfeirio at ymwybyddiaeth gynyddol y cyhoedd o'r mater dadleuol o bosibl hwn.

Cwynion

12. Fel y nodir uchod, dim ond ar weithrediad cyfraith amgylcheddol y bydd y broses interim yng Nghymru yn canolbwyntio, ac ni fydd yn canolbwyntio ar achosion o dorri cyfraith amgylcheddol – bydd achosion o dorri cyfraith amgylcheddol yn cael eu cyfeirio at y sefydliad cyfredol perthnasol neu'r broses gyfreithiol sydd eisoes ar waith, sef Adolygiad Barnwrol. Mewn sawl achos, mae'n debygol y bydd y cwynion hyn yn syrthio o fewn cylch gwaith CNC oherwydd hyd a lled ein rôl fel rheolwr tir, rheoleiddiwr a chorff cadwraeth natur statudol.

13. Mae hyn yn debygol o arwain at gynnydd yn nifer y cwynion amgylcheddol strategol a gaiff eu cyfeirio at CNC, yn ogystal ag at rôl gynghori newydd a phroses oruchwylio newydd a chorff cysylltiedig i gydgyssylltu ag ef yn yr hirdymor. Ymhellach, mae'n debygol y bydd yn arwain at gynnydd yn nifer yr Adolygiadau Barnwrol. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru, CNC ac asiantaethau eraill ledled y DU yn cofnodi diddordeb cynyddol mewn Adolygiadau Barnwrol ymhlith rhanddeiliaid, ar amrywiaeth o bynciau.
14. Mae'r cwynion amgylcheddol strategol hyn yn gymhleth, a gall fod angen llawer o amser ac adnoddau i ymateb iddynt. Ymhellach, mae'r broses newydd yn cynnwys yr holl gyfreithiau amgylcheddol, yn hytrach na dim ond cyfreithiau amgylcheddol sydd wedi deillio o'r UE, felly mae'n cynnwys deddfwriaeth sydd wedi tarddu o Gymru a Lloegr, fel y Ddeddf Coedwigaeth a'r Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad.
15. Mae CNC yn delio ag amrywiaeth o gwynion ffurfiol ac anffurfiol, llythyrau yn codi pryderon a materion cysylltiedig. Mae timau polisi a thimau gweithredol yn gorfod ymateb yn rheolaidd i lythyrau, e-byst a galwadau ffôn yn ymwneud ag amrywiaeth o faterion a all fod yn gymhleth ac yn anodd eu datrys. Ymhellach, mae gennym broses gwyno ffurfiol sy'n ceisio ymdrin yn effeithiol â phryderon neu gwynion am ein gwasanaeth a gawn gan y cyhoedd a busnesau mewn perthynas â'n gwasanaeth. Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru sy'n goruchwylio'r broses gwyno hon.
16. Mae CNC hefyd yn rheoli ceisiadau mynediad at wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol. Mae'r ddeddf a'r rheoliadau hyn yn rhoi'r hawl i'r cyhoedd wneud cais i gael mynediad at wybodaeth sydd heb ei chyhoeddi ac a gedwir gan Cyfoeth Naturiol Cymru, oni bai bod eithriad penodol yn berthnasol. Y tîm mynediad at wybodaeth yn CNC sy'n delio â'r ceisiadau hyn.
17. Hyd yn hyn, mae 4 o bryderon (gyda phob un ohonynt yn ymwneud â chylch gwaith CNC) wedi'u codi trwy gyfrwng proses interim Cymru, ac mae CNC wedi ymateb i gais am dystiolaeth gan yr Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd mewn perthynas â'r pryder cyntaf a godwyd.
18. Yn Lloegr, mae'r Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd interim wedi derbyn 19 o gwynion (hyd at y diweddariad diwethaf ym mis Gorffennaf). Mae 10 o'r rhain yn ymwneud â chadwraeth natur ac mae 9 yn ymwneud â rheoleiddio'r amgylchedd. Mae'n debygol y bydd y pryderon a godir yn Lloegr neu'r Alban yn cael eu codi yng Nghymru hefyd.

Negeseuon allweddol

19. Mae CNC yn gefnogol i Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru a'i rôl o ran ymchwilio i weithrediad cyfraith amgylcheddol yng Nghymru. Rydym yn gweithio'n rhagweithiol gyda'r Asesydd Interim ac rydym yn cefnogi'r broses anstatudol, interim hon.
20. Ers ymadael â'r UE, ni chaiff cyfreithiau a pholisïau amgylcheddol sydd wedi deillio o'r UE eu goruchwylio mwyach gan Gomisiwn yr UE na Lllys Cyfiawnder Ewrop. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gorff statudol yn gyfrifol am ddwyn y llywodraeth a chyrrff cyhoeddus eraill i gyfrif am weithredu cyfraith amgylcheddol yn y DU, ac mae hyn wedi arwain at fwch llywodraethu. Mae angen corff goruchwylio amgylcheddol parhaol er mwyn iddo allu goruchwylio trefniadau llywodraethu amgylcheddol ac egwyddorion amgylcheddol yng

Nghymru. Dylai'r corff hwn fod yn atebol yn annibynnol, dylid cael dull syml a rhad o godi cwynion, a dylai'r corff fod â dulliau gorfodi priodol.

21. Mae hi'n hanfodol cyflwyno deddfwriaeth i sefydlu corff goruchwylio amgylcheddol parhaol cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol. Mae corff Safonau Amgylcheddol yr Alban eisoes wedi'i sefydlu a'i freinio'n llwyr, a disgwylir y bydd y Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd yn cael ei sefydlu ym mis Tachwedd 2021.
22. Mae hi'n hanfodol i unrhyw gorff goruchwylio parhaol ymgysylltu'n rhagweithiol â phob corff cyhoeddus perthnasol yng Nghymru, a hefyd gyda'i gyrff goruchwylio cyfatebol yng ngwledydd eraill y DU. Mae llywodraethu amgylcheddol da yn rhan hanfodol o gyfraith amgylcheddol, a rhaid iddo gydnabod y potensial ar gyfer materion trawsffiniol a'r angen i gydweithredu ar draws ffiniau cenedlaethol.
23. Yn 2019 cynhaliwyd ymgynghoriad eang yn ymwneud â chynigion ar gyfer trefniadau llywodraethu amgylcheddol, ac roedd y mwyafrif helaeth o ymatebion gan randdeiliaid yn cytuno ar y materion allweddol. Ategwyd hyn hefyd gan Ymchwiliad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig i'r un pwnc. Efallai y bydd angen cynnal ymgynghoriad pellach ynghylch elfennau ychwanegol unrhyw Fil arfaethedig, fel cynnwys targedau natur statudol, ond mae hi'n hanfodol i'r deddfwriaeth gael ei chyflwyno cyn gynted ag y bo'n ymarferol.
24. Gallwn ddysgu gwersi gwerthfawr yn sgil y dulliau a ddatblygwyd yn Lloegr a'r Alban, er bod gwahaniaethau pwysig hefyd. Mae CNC yn cefnogi'r argymhellion a nodir yn Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Rhanddeiliaid ar Egwyddorion a Llywodraethu Amgylcheddol, a luniwyd ym mis Mawrth 2020, fel y'u derbyniwyd gan y Gweinidog. Mae'r adroddiad hwn yn pwysleisio'r elfennau allweddol ar gyfer sefydlu corff goruchwylio amgylcheddol yng Nghymru a'r deddfwriaeth ategol, fel yr angen am annibyniaeth, y swyddogaethau y dylai'r corff ymgymryd â nhw, a model ar gyfer sut gallai'r corff weithredu.
25. Ar hyn o bryd, dim ond yr "egwyddor ragofalus" a'r egwyddor "camau ataliol" a gynhwysir yn neddfwriaeth sylfaenol Cymru. Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig y dylid cynnwys pob un o'r 4 egwyddor mewn deddfwriaeth sylfaenol, fel yr argymhellir gan CNC a rhanddeiliaid eraill, er mwyn sicrhau bod pob un ohonynt yn parhau i gael ei gydnabod yn neddfwriaeth Cymru.
26. Dylai'r egwyddorion hyn ategu amcan cyffredinol sy'n pennu uchelgeisiau amgylcheddol yng Nghymru, yn cynnwys y cysylltiadau rhwng polisi amgylcheddol a meysydd polisi eraill er mwyn sicrhau bod egwyddorion amgylcheddol yn cael eu hintegreiddio yn y broses benderfynu.
27. Yn y cyfamser, ac yn niffyg deddfwriaeth sylfaenol ychwanegol, mae hi'n bwysig i'r egwyddorion hyn barhau i fod yn sylfaen i gyfreithiau a pholisïau yng Nghymru. Roedd adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen rhanddeiliaid yn argymhell nad oes angen llunio datganiad o'r egwyddorion hyn. Mae yna gorff o gyfreitheg i'w gael eisoes mewn cyfraith ryngwladol ac yng nghyfraith yr UE ar ystyr yr egwyddorion hyn, a chânt eu mynegi eisoes yn rhannol yn neddfwriaeth Cymru, ac yn neddfwriaeth Cymru a Lloegr.
28. Mae hi'n bwysig i'r gweinyddiaethau gwahanol o fewn y DU barhau i weithio gyda'i gilydd i ddatblygu dull cyffredin o roi'r egwyddorion hyn ar waith, yn ogystal â chydabod y

potensial y bydd materion trawsffiniol yn codi a'r angen i gydweithredu ar draws ffiniau cenedlaethol.